

A oes digon o sicrwydd y gellid sicrhau'r cyfraniadau ariannol hynny yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol (Rheoliad 123 y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol) a phrofion polisi (Cylchlythyr Rhwymedigaethau Cynllunio 13/97)? Os 'nac oes', a allai'r rheini gael eu newid ac a oes amserlen ar gyfer hyn?

1. Mae'r cyngor wedi gwneud lwfans ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (amcangyfrif o £1,500 fesul annedd) yn ei brofion hyfywedd a all fod yn gyfraniad ariannol o dan ddull integredig. **Byddai hyn yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio rhwymedigaeth adran 106** yn unol â'r dull a gymerwyd i ddarparu seilwaith cymunedol yn fwy cyffredinol yn hanesyddol. Ni fydd y cyngor yn gwybod ar hyn o bryd pa gyfraniad ariannol y gellid ei ddisgwyl o waith CNC.
2. **Mae nodyn egluro Llywodraeth Cymru¹ hefyd yn rhoi cyngor ar sut mae eraill wedi mynd ati i wneud hyn o ran cyfiawnhad a sicrhau gweithrediad** (gweler tudalen 16 y PDF): *'Gall casglu cyfraniadau datblygwyr i gyflawni dulliau integredig o liniaru (a sut y gellir bodloni profion adran 106 / Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol) gael ei lywio gan ddulliau yn Lloegr i gyflawni lliniaru ar gyfer pwysau hamdden⁴ [troednodyn 4]. Er enghraifft, Rhosydd Basn Tafwys, Ardal Gwarchodaeth Arbennig Solent, a chanllawiau cysylltiedig ar wneud taliad ymlaen llaw yn lle ymrwmo i gytundebau adran 106, Strategaeth Aflonyddu, Osgoi a Lliniaru Hamdden Arfordir Essex.[Dolenni gwe wedi'u darparu]*
3. **Byddai'r cyngor yn dibynnu ar arferion gorau fel y cyfeiriadau a ddarperir yn nodyn egluro Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y dull cywir yn cael ei gymryd i sicrhau cyfraniadau ariannol.** Yma bydd angen gwneud penderfyniad ynghylch blaenoriaethau o ran gwariant mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac unrhyw awdurdodau cynllunio perthnasol eraill yn y dalgylch trwy ddatblygu'r cynlluniau adfer maethynnau dalgylch perthnasol ochr yn ochr â diweddarau'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd (atodiad). Yna byddai atodiad yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i ddiweddarau hwn yn cael ei ddatblygu ochr yn ochr â chanllawiau cynllunio atodol a'u mabwysiadu gan y cyngor – fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae *'Canllawiau cynllunio ymarferol i gefnogi datblygiad, yn enwedig darparu tai fforddiadwy, mewn dalgylchoedd afonydd ardaloedd cadwraeth arbennig yr effeithir arnynt gan ffosfforws'* yn cynghori ynghylch yr hyn sydd angen i'r cyngor ei wneud i ddiweddarau safbwynt polisi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn ystod oes y cynllun.

¹ <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2026-03/clarification-note-applying-the-tests-of-soundness-to-local-development-plans-ldps.pdf>

11.7 Dull integredig a'r system gynllunio

11.7.1 ² Er mai cyrff cyhoeddus fydd yn penderfynu sut y dylid gweithredu dull integredig o adfer, rheoli a lliniaru o fewn y dalgylch dan sylw, **dylid nodi dull integredig o gyflawni lliniaru yn glir mewn canllawiau cynllunio atodol. Pan fo'n briodol, gellir cynhyrchu atodiad i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol i ddiweddarau casgliadau Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd cynharach yn ffurfiol mewn perthynas â datblygiad i'w gyflawni o fewn cyfnod y cynllun presennol. Gall y canllawiau cynllunio atodol gyfeirio at unrhyw atodiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i gynllun ac egluro sut y gall awdurdodau cynllunio fabwysiadu canfyddiadau'r asesiad i'r cynllun wrth wneud penderfyniadau cynllunio o fewn dalgylchoedd yr effeithir arnynt.** 11.7.2 **Dylid dilyn dull cafeat polisi pan fabwysiedir dull lliniaru integredig.**

4. O ran **dull integredig**, sef y dull y bydd y cyngor yn fwyaf tebygol o'i ddilyn mewn perthynas â'r gwaith sy'n cael ei wneud gan CNC (cynllun(iau) adfer maethynnau dalgylchoedd) a chan y cyngor (gydag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i ddiweddarau), mae gan y cyngor yr un lwfans ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (amcangyfrif o £1,500 fesul annedd) yn ei brofion hyfywedd y gellir eu defnyddio naill ai ar gyfer dull niwtraliaeth maethynnau neu gyfraniad ariannol o dan ddull integredig. Byddai hyn yn cael ei gyflawni gan ddefnyddio rhwymedigaeth adran 106 yn unol â'r dull a gymerwyd i ddarparu seilwaith cymunedol yn fwy cyffredinol. **Ni fydd y cyngor yn gwybod ar hyn o bryd pa gyfraniad ariannol y gellid ei ddisgwyl o waith CNC.** Fodd bynnag, mae paragraff 12 o nodyn egluro Llywodraeth Cymru yn cynghori: **'O dan y Rheoliadau Cynefinoedd, mae yna amryw o lwybr(au) y gall cynlluniau a phrosiectau symud ymlaen drwyddynt. Yn gyffredinol, mae symud i lawr drwy'r llwybrau yn golygu bod yr effeithiau ar ddatblygiad, gan gynnwys hyfywedd ariannol, yn cynyddu. Mae'r Datganiad Polisi Cynllunio Dros Dro yn mabwysiadu dull dilyniannol o ystyried, ac yn ffafrio dull integredig, er mwyn sicrhau bod effeithiau ar ddatblygiad yn cael eu lleihau i'r lefel isaf posibl tra ar yr un pryd yn sicrhau bod dirywiad yn cael ei osgoi a bod adferiad yn cael ei gyflawni.'**
5. Felly, ni fyddai'r cyngor yn disgwyl y byddai angen swm mwy ar gyfer dull integredig na dull niwtraliaeth maethynnau ac felly gellir cyflawni dull integredig.

² Detholiad o 'Canllawiau cynllunio ymarferol i gefnogi datblygiad, yn enwedig darparu tai fforddiadwy, mewn dalgylchoedd afonydd ardaloedd cadwraeth arbennig yr effeithir arnynt gan ffosforws' CANLLAWIAU YMARFEROL AR GYFER AWDURDODAU CYHOEDDUS wedi'u paratoi ar gyfer Llywodraeth Cymru

Yn y cyfarfod archwiliadol ar 16 Mehefin 2026 mewn trafodaethau ar y cwestiwn uchod, cynghorodd yr arolygydd ei fod hefyd yn dymuno cael cyngor penodol ynghylch Rheoliad 123 o'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol,³ sy'n atal gosod rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer "seilwaith" os yw pump neu fwy o rhwymedigaethau cynllunio ar wahân sy'n darparu ar gyfer ariannu neu ddarparu'r math hwnnw o seilwaith wedi'u gwneud ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010.

6. Y pryder oedd a fyddai hyn yn cyfyngu ar allu'r cyngor i sicrhau'r mathau o drefniadau lliniaru y cyfeirir atynt yn nodyn egluro Llywodraeth Cymru '*Cymhwyso'r Profion Cadernid i Gynlluniau Datblygu Lleol lle gall maethynnau ychwanegol effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig*'⁴ gan fod yr enghreifftiau a ddarperir o Loegr, lle mae Rheoliad 123 wedi'i ddatgymhwyso.⁵
7. Mae'n ddefnyddiol bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi mynd i'r afael â'r mater hwn wrth baratoi ei sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 Cyngor Sir Caerfyrddin ac mae'r dystiolaeth honno'n cael ei defnyddio yma.
8. Mae adran 8.3. o Gynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion Cynllun Datblygu Lleol 2 Sir Gaerfyrddin,⁶ sy'n ategu ei Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer ei gynllun, yn ateb y cwestiwn hwn.

Rhwymedigaethau cynllunio

9. Fel arfer, sicrhau cyfraniadau datblygwyr drwy "rhwymedigaeth gynllunio". Mae hon yn ymrwymiad cyfreithiol gan y datblygwr i sicrhau cyfraniad (mewn arian parod neu mewn nwyddau) i fynd i'r afael ag anghenion gwella cymuned, seilwaith neu'r amgylchedd sy'n gysylltiedig â datblygiad. Gall fod yn gytundeb dwyochrog rhwng yr awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr, neu'n ymrwymiad unochrog syml gan y datblygwr i ddarparu'r un peth. Mae'r rhain yn rhan briodol a chydabyddedig o'r system gynllunio ac fel arfer cânt eu llunio o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd).

³ Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010, Offerynnau Statudol y DU 2010 Rhif 948
<https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2010/948>

⁴ Nodyn egluro Llywodraeth Cymru, 'Cymhwyso'r Profion Cadernid i Gynlluniau Datblygu Lleol lle gall maethynnau ychwanegol effeithio ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
<https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2026-03/clarification-note-applying-the-tests-of-soundness-to-local-development-plans-ldps.pdf>

⁵ Rheoliad 123 wedi'i hepgor (E.) (1.9.2019) yn rhinwedd Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (Diwygio) (Lloegr) (Rhif 2) 2019 (O.S. 2019/1103), rheoliadau 1, 11 (gyda Rheoliad 13)

⁶ Adroddiad Technegol Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion Cyngor Sir Caerfyrddin 2024
[nutrient-neutrality-action-plan-p2.pdf](https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2026-03/nutrient-neutrality-action-plan-p2.pdf)

10. Gellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau buddion ar y safle datblygu ei hun neu ar safleoedd addas eraill sy'n agos at y datblygiad arfaethedig (cyn belled â'u bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad).
11. Gellir gofyn i ddatblygwyr talu arian i'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol, i'w wario ar fuddion y cytunwyd arnynt neu ar gyfer eu cynnal a'u cadw.
12. Yn hanesyddol, tueddwyd i ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau gwelliannau seilwaith o nifer gyfyngedig o safleoedd yn unig (mater cronni). Fodd bynnag, o ran yr effeithiau ar afonydd Cleddau a Theifi, gall cynllun cyfraniadau datblygwyr ddarparu dull strategol o wrthbwysio effeithiau negyddol datblygiad ac mae'n cynnwys mecanwaith ar gyfer cael cyfraniadau o bob datblygiad newydd sy'n cysylltu â draeniad prif gyflenwad, a datblygiad nad yw'n brif gyflenwad pan ystyrir ei fod yn briodol.
13. Mae Rheoliad 123 o'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn atal gosod rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer "seilwaith" os yw pump neu fwy o rhwymedigaethau cynllunio ar wahân sy'n darparu ar gyfer ariannu neu ddarparu'r math hwnnw o seilwaith wedi'u gwneud ar neu ar ôl 6 Ebrill 2010. Fodd bynnag, mae'r mesurau i'w hariannu drwy gynllun cyfraniadau datblygwyr yn fesurau lliniaru amgylcheddol ac maent y tu allan i'r diffiniad o seilwaith⁷ (adran 216 (1) a (2) o Ddeddf Cynllunio 2008), felly nid ydynt yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cronni.
14. Mae Cynllun Gweithredu Niwtraliaeth Maetholion Sir Gaerfyrddin hefyd yn rhoi manylion ynghylch sut y gallai cynlluniau o'r fath weithio'n ymarferol. Gelwir y cynllun lliniaru datblygwyr yn 'gynllun cyfraniadau datblygwyr' yn y cynllun gweithredu. Mae manylion wedi'u diwygio isod i gysylltu'r wybodaeth â chyd-destun Sir Benfro ac i gynnwys cyfeiriad at gynlluniau adfer maethynnau dalgylchoedd a sut y gellid cysylltu'r ddwy ddogfen.
15. Isod mae disgrifiad o sut y gallai cynlluniau cyfraniadau datblygwyr weithio i Sir Benfro, gan danategu'r cynllun(iau) adfer maethynnau dalgylchoedd.

Beth yw cynllun cyfraniadau datblygwyr?

16. Un mecanwaith posibl a allai helpu i gyflawni'r lliniaru sydd ei angen i hwyluso CDLI 2 yw cynllun cyfraniadau datblygwyr. Bydd CNC yn paratoi cynlluniau adfer maethynnau dalgylchoedd o gymorth i'r cyngor weithio ei ffordd trwy ddull cam

⁷ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2008/29/section/216> ... mae "seilwaith" yn cynnwys—⁷
(a) ffyrdd a chyfleusterau trafnidiaeth eraill, (b) amddiffynfeydd rhag llifogydd, (c) ysgolion a chyfleusterau addysgol eraill,
(d) cyfleusterau meddygol, (e) cyfleusterau chwaraeon a hamdden, (f) mannau agored

wrth gam nodyn egluro Llywodraeth Cymru i nodi rôl y cyngor yn strategol o ran gwneud penderfyniadau.

17. Dylai hyn ddarparu'r sylfaen dystiolaeth maes o law i'r cyngor allu cynghori ymgeiswyr, er enghraifft, bod dull integredig bellach yn berthnasol a beth yw disgwyliad yr awdurdod cynllunio lleol o ran cyfraniadau datblygwyr. Byddai cynlluniau cyfraniadau datblygwyr o bosibl yn berthnasol i bob datblygiad preswyl yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Teifi a/neu Afonydd Cleddau pan fo angen. I Sir Benfro ar hyn o bryd, y broblem sy'n wynebu afon Teifi yw ffosfforws a'r problemau sy'n wynebu afonydd Cleddau yw nitrogen a ffosfforws.
18. Gwneir cyfraniad datblygwr gan dirfeddiannwr neu ddatblygwr i sicrhau, pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad newydd, bod unrhyw effaith ar yr amgylchedd yn unol â rhwymedigaeth reoleiddiol briodol a bod y mesur lliniaru amgylcheddol sy'n angenrheidiol i gefnogi'r datblygiad yn cael ei ddarparu. Drwy sicrhau'r cyfraniadau hyn, gall awdurdodau cynllunio helpu i wella ansawdd a chynaliadwyedd cynlluniau datblygu unigol a'u gwneud yn fwy derbyniol i gymunedau lleol.
19. Byddai cynllun cyfraniadau datblygwyr yn darparu dull strategol o liniaru sy'n hwyluso cyflawni datblygiadau newydd o fewn y dalgylchoedd. O dan gynllun cyfraniadau datblygwyr, mae costau lliniaru ffosfforws a/neu nitrogen yn cael eu cyfateb yn gymesur â phob datblygiad yn seiliedig ar y ffosfforws a/neu'r nitrogen ychwanegol a gynhyrchir. Byddai angen datblygu cynllun cyfraniadau datblygwyr ochr yn ochr ac yn unol â'r cynllun adfer maethynnau dalgylch ar gyfer y dalgylch afon priodol.
20. Byddai cynllun cyfraniadau datblygwyr yn cael ei baratoi gyda rhanddeiliaid allweddol (yn enwedig yr awdurdodau cynllunio perthnasol). Bydd datblygu'r cynllun adfer maethynnau dalgylch priodol yn darparu'r cyd-destun ar gyfer penderfynu ar gynllun cyfraniadau datblygwyr a bydd hyn yn cael ei gyflawni ochr yn ochr â mesurau ehangach yn y cynllun adfer maethynnau dalgylch.
21. Bydd angen i unrhyw gynllun cyfraniadau datblygwyr a baratoir fod yn ddogfen "fyw"⁸, h.y. un sy'n esblygu'n ailadroddol wrth i'r sylfaen dystiolaeth newid neu os bydd y costau sy'n gysylltiedig â mesurau lliniaru'n newid. Mae paragraff 30 o ddatganiad sefyllfa Llywodraeth Cymru **ED20**, sy'n adleisio papurau polisi Llywodraeth Cymru, yn cynghori: *'Fel rhan o ddull addasol o'r fath, bydd cerrig milltir a mecanweithiau monitro priodol yn cael eu sefydlu yn y cynlluniau adfer maethynnau dalgylch i gyflawni'r mesurau ehangach o dan erthygl 6(1) a (2) o'r*

⁸Paragraff 30 o ddatganiad sefyllfa **ED20** Llywodraeth Cymru.
https://www.pembrokeshire.gov.uk/objview.asp?object_id=12355&language=

gyfarwydddeb. Byddai mecanwaith cafeat polisi priodol yng Nghynllun Datblygu Lleol newydd Cyngor Sir Penfro yn sefydlu'r fframwaith y gall yr awdurdod cynllunio lleol ei ddefnyddio i nodi'r rhyngddibyniaeth rhwng y mesurau yn y cynlluniau hyn sy'n esblygu a'r polisiâu a'r cynigion yn y cynllun. Fel y bo'n briodol, gellir nodi manylion pellach, a allai fod yn anhysbys ar adeg yr archwiliad, yn y canllawiau cynllunio atodol, sydd hefyd yn gwneud y cysylltiad uniongyrchol a pharhaus rhwng y cynlluniau adfer maethynnau dalgylch, eu fframwaith monitro, a'r adroddiad monitro blynyddol / fframwaith ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer nodi graddfa cyfraniadau datblygwyr a allai fod yn ofynnol a gellir eu hadolygu wrth i'r broses o weithredu'r cynllun fynd rhagddi.

22. Ymhellach i'r uchod, mae'n bwysig cydnabod nad cynllun cyfraniadau datblygwyr yw'r unig fodd o sicrhau cyllid ar gyfer lliniaru.
23. Wrth wneud cais, gallai datblygwr ofyn i'r awdurdod asesu ei gais ar wahân i gynllun cyfraniadau datblygwyr. Felly byddai'r cyngor yn parhau i fod yn agored i ystyried unrhyw gynigion lliniaru pwrpasol a gyflwynir fesul achos. O ganlyniad, byddai cynllun cyfraniadau datblygwyr yn cynrychioli ffordd ymlaen y cytunwyd arni, ond nid yr unig opsiwn sydd ar gael i ddatblygwyr wrth sicrhau'r mesurau lliniaru maethynnau sy'n ofynnol ar gyfer eu datblygiad.
24. Byddai cyfleoedd pwrpasol ar gael o dan ganllawiau cynllunio atodol Llawlyfr y Datblygwr, a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin a fydd yn cael eu diweddarau gan Gyngor Sir Penfro i gynnwys cyfeiriad at ffosfforws.
25. Byddai cynllun credyd maethynnau y cyngor sydd ar y gweill hefyd yn opsiwn a fydd ar gael ar gyfer lliniaru.

Rolau a chyfrifoldebau

26. Awdurdod(au) lleol fydd yn gyfrifol am cynlluniau cyfraniadau datblygwyr. Byddai CNC yn cael ei ymgynghori ag ef wrth baratoi'r cynlluniau cyfraniadau datblygwyr yn ei rôl fel corff cadwraeth natur priodol sy'n cynghori ar y Rheoliadau Cynefinoedd. Byddai angen i'r cynllun cyfraniadau datblygwyr fod yn gyson â'r mesurau ehangach a nodir yn y fframwaith cynlluniau adfer maethynnau dalgylchoedd dan arweiniad CNC, a'i gynnwys o fewn y mesurau hynny.

Ysgogwyr polisi

27. Mae **Polisi Nodyn Cyfarwyddyd 3** Cynllun Datblygu Lleol 2 (**ED15f**)⁹ Sir Benfro, **'Seilwaith a Datblygiad Newydd'**, yn cynghori: ...*Bydd angen mesurau sy'n angenrheidiol i gyflawni datblygiad yn ffisegol a sicrhau ei fod yn dderbyniol o ran*

⁹ <https://www.sir-benfro.gov.uk/adolygur-cynllun-datblygu-lleol/archwiliad-2025>

cynllunio yn y lle cyntaf. Pan fo'n briodol, gellir ceisio cyfraniadau at amrywiaeth o ddibenion, gan gynnwys... 9. Bioamrywiaeth... 11. Bydd dŵr (gan gynnwys ansawdd dŵr), ... yn ysgogwr polisi allweddol. Mae'r polisi hwn yn cefnogi egwyddorion rhwymedigaethau cynllunio wrth ystyried yr angen i gynigion datblygu ddangos bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol.

28. O fewn y polisi hwn, gellir ystyried ansawdd dŵr, yn ogystal â bioamrywiaeth a lliniaru maethynnau, a gall cynllun cyfraniadau datblygwyr ddarparu'r mecanwaith i ddatblygwyr asesu'r lefel o gyfraniad sydd ei hangen ganddynt tuag at fesurau lliniaru penodol.

29. **Mae Polisi Strategol 12, 'Cynnal a Gwella'r Amgylchedd Naturiol'**, hefyd yn cynnig mecanwaith defnyddiol i sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith o reoli maethynnau o fewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Teifi ac Afonydd Cleddau. O fewn y polisi hwn, mae angen diogelu neu wella bioamrywiaeth. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau ystyried y maethynnau ychwanegol a gynhyrchir gan eu datblygiad a chyflwyno mesurau i liniaru yn unol â hynny.

30. **Mae Polisi Nodyn Cyfarwyddyd 47/SP12A, 'Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr'**, hefyd yn gosod gofynion ar ddatblygiadau sy'n unol â mesurau lliniaru. Fel y trafodwyd yn y cyfarfod archwiliadol, mae'r cyngor yn argymhell golygiadau pellach i eiriad y polisi. Darperir disgrifiad o'r golygiadau arfaethedig y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod archwiliadol isod:

- (1) Cynnwys y testun cafeat polisi mwy diweddar o nodyn egluro Llywodraeth Cymru.¹⁰ Cynnwys cyfeiriad at y cynllun(iau) adfer maethynnau dalgylchoedd yn nhestun y polisi hwnnw. Cynnwys cyfeiriad at Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cleddau ac Afon Teifi.
- (2) Dileu'r gofyniad i liniaru Systemau Draenio Cynaliadwy wedi'u gwella ar gyfer dŵr wyneb yn unol â chanllawiau gwefan CNC a'r Llawlyfr Lliniaru ar gyfer Nitrogen Anorganig Tawdd.¹¹
- (3) Fel rhan o'r cyfiawnhad rhesymegol, cynnwys cyfeiriad at baratoi canllawiau cynllunio atodol i lywio'r defnydd o'r polisi cafeat. Bydd hyn yn cael ei lywio gan Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i ddiweddarau ar gyfer CDLI 2 yn unol â chanllawiau'r DTA a Llywodraeth Cymru o'r enw

¹⁰ <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2026-03/clarification-note-applying-the-tests-of-soundness-to-local-development-plans-ldps.pdf>

¹¹ <https://www.sirgar.llyw.cymru/media/sscnnlpi/cym-marine-and-estuarine-din-mitigation-handbook-10-03-26.pdf> o dan 4: Cyfrifiad Cyllideb Maethynnau Terfynol, tudalennau 19 a 20.

'Canllawiau cynllunio ymarferol i gefnogi datblygiad, yn enwedig darparu tai fforddiadwy, mewn dalgylchoedd afonydd ardaloedd cadwraeth arbennig yr effeithir arnynt gan ffosforws' CANLLAWIAU YMARFEROL AR GYFER AWDURDODAU CYHOEDDUS (SD65)¹². [Mae'r cyngor yn paratoi nodyn pwynt gweithredu ar wahân o'r cyfarfod archwiliadol i roi amlinelliad o gynnwys y canllawiau cynllunio atodol arfaethedig hyn].

(4) Cynnwys cyfeiriad at ofyniad monitro parhaus ar gyfer y dull integredig a nodir yn y cynllun(iau) adfer maethynnau dalgylchoedd yn fframwaith monitro Atodiad 4 y CDLI. Bydd Adroddiad Monitro Blynnyddol CDLI2, gan gyfeirio at y gwaith o fonitro'r cynllun(iau) adfer maethynnau dalgylchoedd, yn darparu safbwynt y cyngor ynghylch y dull cafeat polisi, a deilliannau monitro'r cynlluniau hynny, h.y. a yw safbwynt y cyngor o ddyddiad yr adroddiadau monitro blynnyddol yn un o niwtraliaeth maethynnau neu integredig neu drothwy. Gall hyn hefyd fod yn benodol i is-ddalgylch neu'n gyfuniad o'r dulliau hyn. Byddai'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol hefyd ymateb i unrhyw gyhoeddiadau gan CNC i newid cwrs yn ystod y cyfnod monitro blynnyddol.

31. Mae'r mecanweithiau polisi i sicrhau bod y mesurau lliniaru priodol sy'n ofynnol yn cael eu cyflawni eisoes yn bodoli a, chyda'r potensial ar gyfer golygiadau fel y trafodwyd yn y cyfarfod archwiliadol, byddai eu cylch gwaith yn gliriach. Yna bydd modd gweithredu ar rwymedigaethau cynllunio. Byddai cynllun cyfraniadau datblygwyr yn gweithredu fel mecanwaith y byddai datblygwyr yn ei ddefnyddio i gyflwyno eu safleoedd wrth gyfrannu at y lliniaru angenrheidiol.¹³

32. Nid yw effaith datblygiad ar Ardal Cadwraeth Arbennig yn rhan o'r farn gynllunio lle mae ystyriaethau perthnasol yn cael eu pwysu a mesur gan yr awdurdod cynllunio wrth ddod i benderfyniad ar gais cynllunio. Felly, nid mater o ba bwysau a roddir ar y mater lliniaru yw hi. Yn hytrach, mae'n gwestiwn 'ie/na' ynghylch a yw'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio'n gyfreithiol â'r Rheoliadau Cynefinoedd.

¹² <https://www.llyw.cymru/ddatblygiad-mewn-afonydd-ardaloedd-cadwraeth-arbennig-aca-canllawiau-cynllunio>

¹³ Beth yw mesurau lliniaru?: Pan na ellir dod i'r casgliad na fydd unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle, mae angen ystyried mesurau lliniaru posibl. Mae mesurau lliniaru yn fesurau amddiffynnol sy'n rhan o brosiect a'u bwriad yw osgoi neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol uniongyrchol a allai gael eu hachosi gan gynllun neu brosiect, er mwyn sicrhau nad yw'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle(oedd) cynefin. Mae angen i unrhyw fesurau a ddefnyddir i lywio'r penderfyniad ynghylch yr effeithiau ar y cyfanrwydd gael eu sicrhau'n ddigonol a bod yn debygol o weithio'n ymarferol.

33. Yn ôl y gyfraith, ni all yr awdurdod cynllunio lleol roi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad a fyddai, naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â datblygiadau eraill, yn cael effaith sylweddol debygol ar safle Ardal Cadwraeth Arbennig oni bai fod mesurau lliniaru llawn yn cael eu rhoi ar waith lle ystyrir bod eu hangen.¹⁴

Monitro cynlluniau cyfraniadau datblygwyr

34. Bydd angen rheoli a monitro cyllidebau maethynnau yn ystod cyfnod y CDLI 2 mabwysiedig i gadarnhau bod digon o liniaru. Am lawer o resymau, gallai fod angen cyllidebu maethynnau ychwanegol, e.e. pan fydd caniatâd yn cael ei ddyrannu i gyllideb ond nad yw caniatâd yn cael ei ddyroddi / ei gwblhau, neu os nad yw'r ddarpariaeth tai yn bodloni'r amserlen gyflawni ar gyfer y CDLI.
35. Gellid cysylltu'r gwaith monitro hwn yn ddefnyddiol â gwybodaeth am gyflenwi tai yr ymgynghorwyd arni â rhanddeiliaid allweddol fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu fel rhan o Adroddiad Monitro Blynnyddol y Cynllun Datblygu Lleol, sydd wedi'i gynnwys fel craidd/dangosydd allweddol yn y Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (**SD66**), sy'n cynghori bod yn rhaid i'r adroddiadau monitro blynnyddol gynnwys diweddariad ar daflwybr tai a sylwadau a dadansoddiadau cysylltiedig. Mae'r cyngor wedi paratoi cyllideb maethynnau ar sail taflwybr y Cynllun Datblygu Lleol, a gyflwynwyd fel y'i diweddarwyd i'w archwilio (**ED15f**). Byddai angen ailbroffilio'r cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai a'r gyllideb maethynnau yn flynyddol. Ar yr adeg y bydd y Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn cael ei ymgysylltu ag ef ar y taflwybr, ymgysylltir ag CNC hefyd i sicrhau cydamseredd â'r cynllun adfer maethynnau dalgyrch perthnasol. Yna byddai'r cyngor yn gallu nodi yn ei adroddiad monitro blynnyddol ar y Cynllun Datblygu Lleol beth fyddai'n briodol o ran cyfraniadau datblygwyr i reoli'r cylch cyflawni nesaf o'i gymharu â pholisi Nodyn Cyfarwyddyd 47 / SP12, sef y polisi cafeat ar gyfer ansawdd dŵr a gwarchod adnoddau dŵr ar gyfer y flwyddyn nesaf (cylch cyflawni mis Ebrill i fis Mawrth).
36. Bydd polisi Nodyn Cyfarwyddyd 47 / SP12 A **Ansawdd Dŵr a Gwarchod Adnoddau Dŵr** yn sicrhau na roddir caniatâd i unrhyw ddatblygiadau newydd oni bai fod y mesurau lliniaru gofynnol wedi'u dangos trwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel y prosiect a gynhaliwyd ar y lefel briodol.
37. Byddai cyllid rhwymedigaeth gynllunio yn cael ei gronni i gyflawni'r mesurau lliniaru o fewn cwmpas ystod o fesurau'r cynllun cyfraniadau datblygwyr. Byddai'r awdurdod cynllunio lleol yn dyrannu cyllid i'r mesurau yn ôl gofynion y cynllun adfer maethynnau dalgyrch perthnasol, er mwyn sicrhau y gellir cyflawni safleoedd ar yr un pryd â meddiannu'r cynigion.

¹⁴ Y Gyfarwydddeb Cynefinoedd, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

Amodau Grampian

38. Mae Amodau Grampian yn darparu modd y gellir sicrhau lliniaru. Mae Amodau Grampian yn gwahardd datblygiad a awdurdodwyd gan y caniatâd cynllunio neu agweddau eraill sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio (yn achos defnydd preswyl, meddiannu'r datblygiad) nes bod camau penodol wedi'u cymryd (yn yr achos hwn, darparu pecyn osgoi a lliniaru). Ni ddylid defnyddio amodau o'r fath pan nad oes unrhyw obaith o gwbl y bydd y weithred dan sylw yn cael ei chyflawni o fewn y terfyn amser a osodir gan y caniatâd. Nid yw hynny wedi'i ragweld yn yr achos hwn.

Datblygiad yr effeithiwyd arno

39. Mewn theori, gallai unrhyw ddatblygiad sy'n ychwanegu llwyth maethynnau at Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonydd Cleddau ac Afon Teifi olygu bod angen mesurau lliniaru, e.e. twristiaeth, datblygu amaethyddol a llety dros nos; fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i gynllun cyfraniadau datblygwyr ddarparu ar gyfer pob amgylchiad. Ar ben hynny, dylid cyfeirio at gymhwyso dull trothwy, pan fo'n berthnasol, gan na fyddai angen cymhwyso cynllun cyfraniadau datblygwyr yn yr achosion hyn.
40. Byddai'r cynllun cyfraniadau datblygwyr cyntaf (a fydd ar gyfer afonydd Cleddau) yn canolbwyntio i ddechrau ar y mater strategol sy'n galluogi datblygiad preswyl (pan fo angen). Ymhen amser, efallai y bydd yn briodol ehangu'r cynllun cyfraniadau datblygwyr i gwmpasu mathau eraill o ddatblygiad anstrategol sy'n ymateb i amgylchiadau a phwysau lleol. Disgwylir cynllun cyfraniadau datblygwyr arall ar gyfer afon Teifi yn Sir Benfro yn ddiweddarach.
41. O ganlyniad, bydd y cynllun cyfraniadau datblygwyr cyntaf yn darparu mesurau lliniaru ar gyfer datblygiad a fyddai'n arwain at gynnydd mewn maethynnau sy'n mynd i mewn i amgylchedd afon yr ACA. Mae'n debygol y bydd hyn yn cynnwys yn bennaf ddatblygiad preswyl sy'n cysylltu â charthffosydd cyhoeddus sy'n gollwng i ddalgylchoedd ACAu Afonydd Cleddau ac Afon Teifi.

Sut y gellid cyfrifo rhwymedigaethau cynllunio?

Cam 1: Cyllideb maethynnau'r Cynllun Datblygu Lleol

42. Gellir darparu dyraniadau cyllideb maethynnau ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol 2 Sir Benfro ar gyfer datblygiadau unigol ar hyd afon Teifi ac afonydd Cleddau fel rhan o'r gwaith o baratoi cynllun adfer maethynnau'r dalgylch / diweddariad o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Gellir darparu cyllidebau'n flynyddol gan ddefnyddio taflwybr y CDLI.

Cam 2: Nodi mesurau lliniaru

43. Gan ddefnyddio'r gyllideb o Gam 1, bydd y cynllun(iau) lleihau maethynnau dalgylchoedd yn nodi'r mesurau lliniaru posibl sydd ar gael ledled y dalgylch y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun. Gall y cyngor defnyddio un o'r mesurau lliniaru hyn i nodi cyfraniad lliniaru priodol gan ddatblygwyr i'w gyflawni drwy gynllun cyfraniadau datblygwyr mewn trafodaeth ag CNC.
44. Bydd y mesurau lliniaru yn darparu'r lefel o ostyngiad mewn ffosfforws a/neu nitrogen sydd ei hangen i hwyluso'r datblygiad a ddygwyd ymlaen. Bydd y mesurau yn y cynllun(iau) adfer maethynnau dalgylch yn cael eu costio'n llawn i gynnwys yr holl gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn unol â chyngor CNC yn y cyfarfod archwiliadol.
45. Mae'n debygol y bydd cynllun cyfraniadau datblygwyr yn darparu ar gyfer cyfanswm cost cyflawni'r mesurau lliniaru o ran lliniaru ffosfforws/nitrogen ar sail £/kg. Mae'n bwysig nodi'r gwahaniaeth rhwng niwtraliaeth maethynnau a dull integredig. Mae dull integredig yn cynyddu'r raddfa neu'n cyflymu mesurau adfer presennol ond nid yw'n talu cyfanswm cost yr holl fesurau adfer.

Cam 3: Dyrannu costau lliniaru i'r datblygwr

46. Bydd angen i'r cynllun adfer maethynnau dalgylch a'r cynllun cyfraniadau datblygwyr cysylltiedig bennu mecanwaith addas ar gyfer dosrannu cyfanswm cost y gwaith lliniaru i'r datblygwr. Mae sawl enghraifft ar gael yn Lloegr,¹⁵ a dylid cynnal adolygiad priodol o'r opsiynau posibl wrth ddatblygu cynllun cyfraniadau datblygwyr i ddod o hyd i drefniant addas ar gyfer Sir Benfro.
47. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn gweithredu cynllun cyfraniadau datblygwyr mewn perthynas â britheg y gors ar y sail hon.^{16 17} Mae'r cynllun cyfraniadau datblygwyr, sydd wedi'i fabwysiadu fel canllawiau cynllunio atodol, yn cynghori ar y canlynol:
- a. Y cyd-destun deddfwriaethol a pholisi
 - b. Cyflwr yr ACA berthnasol a'r amcanion cadwraeth
 - c. Cyfiawnhad a thystiolaeth ategol
 - d. Cyfraniad y datblygwr
 - e. Monitro a rheoli
 - f. Map o ardal y cais am ganllawiau cynllunio atodol lle mae angen cyfraniadau gan ddatblygwyr
 - g. Map o'r ACA berthnasol

¹⁵Troednodyn 4 – enghreifftiau o'r nodyn egluro

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2026-03/clarification-note-applying-the-tests-of-soundness-to-local-development-plans-ldps.pdf>

¹⁶ https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/3445/marsh_fritillarysap.pdf

¹⁷ https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1226596/caeau-mynydd-mawr_cymraeg_final.pdf

48. Byddai'r cynllun cyfraniadau datblygwyr ar gyfer maethynnau yn y dalgylch perthnasol yn is-set o'r cynllun(iau) adfer maethynnau dalgylch o ran gwybodaeth am gyflwr ac amcanion cadwraeth, y cyfiawnhad a'r dystiolaeth ategol, a gofynion cyfraniad y datblygwr.

Pwynt Gweithredu 3: Sylwadau CNC ar 26 Mehefin 2026: Cyfraniadau ariannol – Mae'r cynllun adfer maethynnau dalgylch yn canolbwyntio ar fesurau Erthygl 6(2) sy'n ofynnol yn unig, na fydd angen ystyried Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar eu cyfer, a byddant yn cynhyrchu cydrannau a fydd yn galluogi ystyriaeth well o fesurau lliniaru (strategol, prosiect, ehangu mesurau 6(2) ac ati) y bydd angen eu hystyried mewn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Er y gall cyfraniadau ymwneud â chostau mesurau cynllun adfer maethynnau dalgylch gan CNC, efallai na fydd ehangu na chyflenwi'r rhain yn gyflymach yn bosibl, a byddai angen gweithio arnynt fesul mesur. Nid oes unrhyw rwystr i gynnig mesurau lliniaru strategol neu fesurau lliniaru eraill ar wahân i dderbyn cyfraniadau (dan arweiniad yr awdurdod cynllunio lleol neu eraill), ar yr amod nad oes rhwystr neu oedi i'r cynllun adfer maethynnau dalgylch. Yn yr un modd, gallai eraill gyflawni mesurau cynllun adfer maethynnau dalgylch, o dan gytundeb, ac yna cyflawni mesurau lliniaru ochr yn ochr â hynny drwy ehangu / cyflymu. Bydd gennym rai sylwadau neu ystyriaethau bach eraill i'w codi, ond gellir trafod y rhain yn y dyfodol.